# Canllawiau ynghylch Deddfwriaeth Diogelu Defnyddwyr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Rhagymadrodd

Amlygwyd pwysigrwydd deddfwriaeth diogelu defnyddwyr yng nghyd-destun addysg uwch yn dilyn eglurhad o'r gyfraith gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn 2015.

Cadarnhaodd yr eglurhad hwn bod Prifysgolion wrth ddarparu gwasanaeth addysgol yn gweithredu at ddibenion cysylltiedig â'u masnach, busnes neu broffesiwn, a'u bod yn cael eu hadnabod fel "masnachwr", "gwerthwr", neu gyflenwr" o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr. Mae israddedigion yn gweithredu at ddibenion y tu allan i'w masnach, busnes neu broffesiwn, ac o'r herwydd maent yn "ddefnyddwyr" o dan y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr. Ymhellach mae deddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn gymwys i ddarpariaeth llety, cyllido ac unrhyw gefnogaeth arall i fyfyrwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gofynion yn ychwanegu at, ac yn egluro, ein hymrwymiad i drin myfyrwyr yn deg. Serch hynny mae canllawiau'r CMA wedi amlygu pwysigrwydd ymdrechion ledled y brifysgol i sicrhau bod gwybodaeth i fyfyrwyr yn amserol ac yn gywir.

Yn 2015 pwysleisiodd y CMA yr angen i'r sector ddarparu:

- gwybodaeth agored, glir, dryloyw a chywir sy'n caniatáu i fyfyrwyr wneud dewisiadau gwybodus ynghylch lle i astudio
- telerau ac amodau teg a chytbwys sy'n darparu perthynas glir gontractiol rhwng myfyriwr a'u prifysgol
- prosesau cadarn, hygyrch a chlir i ddelio â chwynion sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddal prifysgolion i gyfrif

## Darparu Gwybodaeth

Mae angen i'r Brifysgol sicrhau ein bod yn darparu "gwybodaeth faterol" i ddarpar fyfyrwyr ar bob cam o'n hymwneud â hwynt, yn cynnwys yn y camau ymchwilio a cheisiadau, cynigion a chofrestru.

Mae Gwybodaeth Faterol yn cynnwys

- gwybodaeth am y cwrs (teitl y cwrs, gofynion mynediad, modiwlau craidd, cyfansoddiad y cwrs, dulliau asesu, dyfarniad ar gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, lleoliad yr astudiaeth, hyd y cwrs)
- Cyfanswm y costau cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu a **phob cost ychwanegol** (e.e. costau yn ymwneud a theithiau maes gorfodol a dewisol, cyfarpar, llyfrau etc.)

Ni ddylai unrhyw beth gael ei hepgor

Byddai methu â darparu'r wybodaeth faterol, neu fethu â chynnig eglurder am y wybodaeth faterol yn torri deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, e.e.

- Methu â rhoi gwybodaeth am gyfanswm y ffioedd dysgu a chostau cysylltiedig ymlaen llaw
- Methu â mynegi’n glir i fyfyrwyr bod rhaid cwblhau modiwlau penodol er mwyn i achrediad proffesiynol gael ei ddyfarnu ar gwblhau'r cwrs
- Rhoi'r wybodaeth faterol i ddarpar fyfyrwyr yn unig ar ôl iddynt wneud cais
- Methu â rhoi gwybod i ddarpar fyfyrwyr am newidiadau a wnaed yn ddilynol i unrhyw wybodaeth faterol a gynhwyswyd mewn prosbectws neu ddeunyddiau marchnata eraill

Gweithredu'n Gamarweiniol

Byddai rhoi gwybodaeth gamarweiniol, naill ai'n fwriadol neu drwy amryfusedd, hefyd yn torri deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, e.e.

- Rhoi argraff gamarweiniol mewn diwrnod agored y byddai aelod penodol o staff yn cymryd rhan mewn dysgu cwrs, neu y byddai adnodd neilltuol ar gael i bob myfyriwr pan nad yw hynny'n wir
- Rhoi argraff gamarweiniol am leoliad cwrs
- Awgrymu bod cwrs yn cynnig cymhwyster penodol gan gorff proffesiynol pan fyddai mewn gwirionedd angen astudiaeth (ac o bosib cost) bellach i ennill y dyfarniad hwnnw.

Pwyntiau Allweddol

Ffynhonnell: *INFORMATION FOR STUDENTS: A guide to providing information to prospective undergraduate students* a baratowyd gan y QAA i'r sector addysg uwch

http://www.hefce.ac.uk/media/HEFCE,2014/Content/Learning,and,teaching/Guide,to,providing,info,to,students/Guide_to_providing_info_to_students.pdf

- Ydych chi'n cyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr i wneud dewis gwybodus ynglŷn â lle a beth i'w astudio?
- Ydych chi'n cyflwyno'r wybodaeth yn y man y maent fwyaf tebygol o chwilio amdani?
- Ydych chi wedi ystyried sut i gysylltu gwybodaeth ynghyd orau fel bod myfyrwyr yn gallu dod o hyd iddi'n hawdd; ydy'r linciau'n glir, yn ymarferol ac yn hawdd eu defnyddio?
- Ydy'r wybodaeth yn hygyrch i'r ystod o fyfyrwyr a fydd yn dymuno ei defnyddio o bosib, er enghraifft mewn gwahanol fformatau?
- Ydy'r iaith a ddefnyddiwyd gennych yn briodol? Dylech gymryd gofal i beidio â defnyddio iaith a thalfyriadau sydd yn hysbys yn y sector, ond sy'n debyg o fod yn anghyfarwydd i ddarpar fyfyrwyr, oni bai eu bod yn cael eu hegluro ymhellach.
- A oes gennych ddulliau/prosesau mewn lle ar gyfer adolygu a diweddaru'r wybodaeth hon fel sy'n briodol?
- Ydych chi wedi ystyried ymhellach p'un ai y gallai gwybodaeth am gwrs beri syndod i fyfyriwr ac wedi amlygu hynny iddynt?
- Ydych chi wedi esbonio'n glir yr amgylchiadau lle gellid gwneud newidiadau, a'r cyfnod o rybudd a roir i fyfyrwyr am unrhyw newidiadau (heb ddefnyddio disgresiwn eang i amrywio)?

- A oes gennych broses polisi clir i roi gwybod i fyfyrwyr ynglŷn â phryd y bydd newidiadau i gyrsiau yn cymryd lle ac a ydyw'r wybodaeth hon yn hawdd dod o hyd iddi i ddefnyddwyr?

**Telerau ac amodau**

Mae telerau ac amodau yn rheoli'r berthynas rhwng myfyrwyr a phrifysgolion, ac maent yn gosod cyfrifoldebau a disgwyliadau ar y ddau. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod y telerau ac amodau'n deg, wedi'u cyflwyno i fyfyrwyr ar ffurf hygyrch a chadarn a bod telerau pwysig, neu delerau a allasai beri syndod, yn cael eu hamlygu. Pe bai llys barn yn canfod bod telerau yn annheg, ni fyddai myfyrwyr yn gyfreithiol-rwym iddynt ac ni ellid eu gweithredu.

**Gwneud Newidiadau i Ddarpariaeth**

Mae cynnwys cwrs a'r strwythur (gan gynnwys dull o'i gyflwyno, amser cyswllt, lleoliad y cwrs a dulliau asesu) yn ffurfio rhan o wybodaeth cyn-gontract y myfyriwr a daw'n delerau contract unwaith mae'r myfyriwr wedi derbyn y cynnig i astudio.

Efallai y bydd newidiadau yn angenrheidiol am nifer o resymau megis newid staff, newid yn y galw, materion yn ymwneud â'r amserlen, gweithredoedd cyrff achredu allanol neu resymau pedagogeg. Nid oes gan brifysgolion, fodd bynnag, ddisgresiwn dilyffethair i wneud newidiadau i gyrsiau. Fel canllaw, dylid cyflwyno newidiadau i gyrsiau yn unig pan fo'r newid yn fuddiol i'r myfyrwyr, a / neu lle mae'r newid yn angenrheidiol mewn ymateb i ddigwyddiad y tu allan i reolaeth y Brifysgol na ellid fod wedi paratoi ar ei gyfer.

<u>Newidiadau Arwyddocaol</u>

Byddai newidiadau arwyddocaol i gynnwys cwrs neu strwythur yn cynnwys:

- Diddymu, amnewid a / neu ychwanegu at fodiwl craidd neu orfodol
- Newid yn y dulliau asesu penodol;
- Newid yn y gofynion mynediad;
- Newid i gyflwyniad trydydd parti ar gwrs
- Newid lleoliad cyflwyno'r cwrs

<u>Ymgynghori gyda Myfyrwyr</u>

- Rhaid i newidiadau i gynnwys cwrs a / neu'r strwythur gael eu cyfathrebu'n gynnar i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt.
- Fel rhan o'r trafodaethau rhaid cytuno ar broses i ymgynghori â'r myfyrwyr am y newidiadau arfaethedig e.e.
    - E-bostio'r myfyrwyr yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig
    - Egluro pam eich bod yn gwneud y newidiadau a'r hyn fydd y newidiadau yn eu golygu i'r myfyrwyr. Byddwch yn dryloyw fel bod myfyrwyr yn gwybod ble y maent yn sefyll
    - Gofyn am ymateb myfyrwyr a rhoi cyfarwyddiadau i ffynonellau cefnogaeth e.e. Undeb y Myfyrwyr
    - Rhoi dewis o gamau posib ymlaen - ni ellwch orfodi'r newid a rhaid i chi fod yn hyblyg i'r rhai hynny sydd eisoes ar y cwrs

– Dylai’r myfyrwyr allu terfynu eu hymrwymiadau os effeithir arnynt er gwaeth gan y newid.

**Cwynion**

Mae'n bwysig sicrhau bod gan y Brifysgol broses effeithiol, glir a chryno i ddelio â chwynion a bod gwaith eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn. Mae'n hanfodol ceisio datrys unrhyw gwyn a dderbynnir yn gynnar lle bo'n bosib. Mae gweithredu'n gyflym i ddatrys unrhyw drafferthion posib yn bwysig, a phan fo myfyrwyr yn codi cwynion yn anffurfiol dylid rhoi gwybod iddynt am y drefn ffurfiol os na ellir datrys y mater yn foddhaol.

Mae gofynion deddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn cryfhau ymhellach yr egwyddorion o degwch a thryloywder sydd eisoes yn sylfaen i'n hymwneud â darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol.

**Manylion Pellach**

Am fwy o fanylion ar ofynion deddfwriaeth diogelu defnyddiwr cysylltwch â Gwenan Hine, Pennaeth Cydymffurfio, gwenan.hine@bangor.ac.uk estyniad 2413